<u>Seren yn y crud</u>

1.ar ganol nos ym Methlehem
Ar noson ddigon oer
Ni wyddai neb wrth grwydro'r stryd
O'r wyrth dan olau'r lloer

Ond yn y stabl bychan llwm
Roedd dau a wyddai'n iawn
Bod gwyrth y geni yn nesau
A'r cariad oedd yn llawn

CYTGAN-
Babi bach a anwyd i'r byd
Yn rhodd i dynnu'r holl fyd ynghyd
Yng nghanol twyllwch bywyd
Fe ddaeth goleuni hyfryd
Efe yw'r seren yn y crud.

2.A draw ar fryniau serth gerllaw
Yn gwylio'u praidd liw nos
Bugeiliaid oedd yn dawel bach
Yn gwylio'r seren dlos

A’r seren honno aeth a nhw
A’r tri gwr doeth i’r dref
A’u rhodd o aur a thus  a myr
I Iesu - Brenin Nef
CYTGAN

Ef yw’r seren ddaeth i’r byd
Yn fabi bychan tlawd
Ein gobaith yw am fywyd gwell
Ein cyfaill yw a’n brawd

CYTGAN